



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Ymarfer Hap-samplu y Panel Craffu

Achosion Ymosodiad

Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar achosion Ieuenctid

Gorffennaf 2026

Cynnwys

<u>1.0</u>	<u>Trosolwg</u>	3
<u>2.0</u>	<u>Cefndir, diben a methodoleg</u>	3
<u>3.0</u>	<u>Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel</u>	4
<u>4.0</u>	<u>Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel</u>	4
<u>5.0</u>	<u>Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro</u>	4
<u>6.0</u>	<u>Ystyried Achosion Ieuenctid</u>	4
	<u>Achos 1</u>	5
	<u>Achos 2</u>	5
	<u>Achos 3</u>	5
	<u>Achos 4</u>	6
	<u>Achos 5</u>	6
	<u>Achos 6</u>	6
	<u>Achos 7</u>	6
	<u>Achos 8</u>	7
<u>7.0</u>	<u>Asesiadau'r Panel hyd yma</u>	7
<u>8.0</u>	<u>Ethnigrwydd a Rhyw</u>	8
<u>9.0</u>	<u>Ffocws y Panel yn y dyfodol</u>	10
<u>10.0</u>	<u>Camau Gweithredu</u>	10

1.0 Trosolwg

Ar 1 Gorffennaf 2026, mynychodd aelodau o'r panel craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys gyfarfod i adolygu detholiad o wyth achos oedolion ac wyth achos ieuenctid yn ymwneud â throedd ymosodiad yr ymdriniwyd â hwy trwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Lle'r oedd yn bosibl, ystyriodd y panel achosion a oedd yn ymwneud ag ymosodiad yn erbyn gweithiwr brys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas â'r achosion ieuenctid.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- Cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned.
- Yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- Dewisiadau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- Defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel beth amheuaeth.
- Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- Y panel yn methu â dod i gasgliad.

3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Gallaf Carys Morgans (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y farn a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu dyddiedig 01 Gorffennaf 2026.

Llofnod:



Dyddiad: 24/09/26

4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith panel craffu'r datrysiad y tu allan i'r llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Rhoddwyd adborth i'r swyddog(ion) yn achos Ieuenctid 3 ar bwysigrwydd cyflwyno ffurflenni RJ1 mewn modd amserol.

5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro wrth adolygu'r achosion ieuenctid:

- Nododd aelodau panel bod merched ifainc nad oedd yn hysbys i wasanaethau o'r blaen sy'n gysylltiedig ag ymddygiad grŵp negyddol yn destun pryder ledled ardal Dyfed-Powys.
- Nododd yr aelodau ambell achos lle'r oedd diffyg manylion yn y gwaith papur.

6.0 Ystyried achosion Ieuenctid

Adolygodd aelodau'r panel wyth achos yn ymwneud ag ieuenctid. O'r rhain, datryswyd dau achos drwy weithgarwch dargyfeiriol, addysgol neu ymyriad (canlyniad 22), un drwy warediad adferol ieuenctid, un drwy rybudd amodol ieuenctid, a'r tri sy'n weddill drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

Asesiad yr aelodau	Nifer yr achosion
--------------------	-------------------

Priodol	5
Priodol gydag amheuon	2
Amhriodol	0
Methu â dod i gasgliad	1

Achos 1

Cytunodd aelodau'r panel fod yr achos hwn wedi'i drin yn dda iawn. Roedd llawer o nodiadau ac ardystiadau priodol gan oruchwylwyr. Awgrymodd yr aelodau y dylid tynnu sylw at yr enghraifft hon fel arfer gorau. Gan hynny, penderfynodd y panel fod y canlyniad hwn yn briodol.

Asesiad y panel: Priodol

Cam Gweithredu 1: Rhoi adborth cadarnhaol i'r swyddog(ion) mewn perthynas ag Achos Ieuenctid 1.

Achos 2

Cytunodd yr aelodau bod yr achos hwn yn cynnwys rhesymeg dda a phenderfyniadau priodol mewn perthynas â chadw'r plentyn allan o'r ddalfa yn unol â chymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Roedd y nodiadau'n glir a chytunodd y panel fod amodau'r canlyniad yn ystyrlon. Cafwyd trafodaeth am ymgysylltu â swyddogion y Tîm Troseddau Ieuenctid a nodweddion cadarnhaol y datblygiad hwn. Ystyriodd y panel fod y canlyniad hwn yn briodol.

Asesiad y Panel: Priodol*Achos 3*

Cytunodd aelodau'r panel nad oedd y nodiadau'n ddigon trylwyr. Roedd hi'n anodd dilyn y gwaith papur i ddeall y cyd-destun oherwydd diffyg rhesymeg a phenderfyniadau cronolegol. Nododd yr aelodau panel thema gyffredin mewn perthynas â merched ifainc yn ymddwyn yn amhriodol pan maen nhw'n rhan o grŵp mawr. Cytunodd yr aelodau fod yr achos hwn yn briodol gyda rhai amheuon oherwydd y manylion coll.

Asesiad y panel: Priodol gydag amheuon

Achos 4

Mynegodd yr aelodau panel bryderon am y defnydd o ddatrysiad cymunedol ieuenctid yn hytrach na chanlyniad 22 o ystyried mai hwn oedd cyswllt cyntaf y troseddwr honedig â'r system cyfiawnder ieuenctid. Byddai canlyniad 22 wedi rhoi'r cyfle i gyflawni gwaith dargyfeiriol wedi'i deilwra gyda'r troseddwr honedig. Teimlai'r aelodau bod tebygolrwydd y byddai canlyniad 22 wedi'i roi pe na bai'r digwyddiad hwn yn cynnwys merched eraill fel grŵp. Eto, mae hyn yn cysylltu â'r thema a nodwyd uchod. Ystyriwyd bod y canlyniad hwn yn briodol gyda rhai amheuan.

Asesiad y panel: Priodol gydag amheuan

Achos 5

Tynnodd yr aelodau sylw at y camau gweithredu cadarnhaol a gymerwyd gan yr Arolygydd yn yr achos hwn. Yn gyffredinol, ystyriodd y panel fod y canlyniad hwn yn briodol.

Asesiad y panel: Priodol

Achos 6

Cafodd y panel drafodaeth fanwl o gwmpas oed y troseddwr honedig a pha un ai a ddylai'r canlyniad fod wedi bod yn rhybudd amodol. Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol gan y panel bod yr ymagwedd fwyaf priodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn wedi'i chymryd gan y swyddog cyfrifol. Roedd trafodaeth am droseddau gyrru yn fwy cyffredinol a'r rhwymedigaeth i achosion gael eu clywed mewn llys. Cytunwyd y byddai SCHTh yn ymgysylltu â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i rannu gwybodaeth am gynllun peilot Heddlu Gwent ar gyfer pobl ifainc yn y gofod hwn. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y canlyniad yn briodol.

Asesiad y panel: Priodol

Cam Gweithredu 2: SCHTh i ymgysylltu â Chyfiawnder Ieuenctid i drafod yr ymgyrch i newid cyfeiriad a chyfleoedd lobiö posibl i ehangu prosesau a ddefnyddir yng Ngwent.

Achos 7

Tynnodd y panel sylw at nifer o broblemau â'r achos hwn, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth ar gyfer achosion sydd angen eu dilyn tu allan i'r ardal. Mynegodd yr aelodau bryderon hefyd am y defnydd o'r ddalfa ar gyfer

y plentyn yn yr achos hwn. Nodwyd cyfle dysgu hefyd ar gyfer y swyddog cyfrifol mewn perthynas â sicrhau bod y plentyn yn rhan o'r broses cyn rhoi datrysiad y tu allan i'r llys. Oherwydd y wybodaeth goll gan wasanaethau tu allan i'r ardal heddlu, methodd y panel â dod i gasgliad ar gyfer yr achos hwn.

Asesiad y panel: Methu â dod i gasgliad

Cam gweithredu 3: Swyddog(ion) i dderbyn adborth mewn perthynas ag Achos Ieuenctid 7, a'r gofyniad i sicrhau ymgysylltiad y plentyn dan sylw.


Achos 8

Soniodd y panel y gallai canlyniad 22 fod wedi bod yn fwy addas yn yr achos hwn. Fodd bynnag, darparwyd cyd-destun ychwanegol mewn perthynas â phrosesau ym Mhowys na fyddai wedi caniatáu hyn ar y pryd. Ers hynny, mae Powys wedi diweddarau eu prosesau, sy'n golygu y bydd achosion tebyg yn cael eu hystyried ar gyfer canlyniad 22 yn y dyfodol. Gan hynny, roedd y panel yn fodlon bod y canlyniad hwn yn briodol ar y pryd.


Asesiad y panel: Priodol

7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae ffigur 1 yn arddangos asesiad y Panel o achosion ymosod sy'n ymwneud ag ieuenctid a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf. Mae ffigur 2 yn rhoi trosolwg o'r math o warediad a ddefnyddiwyd yn yr achosion a ddadansoddwyd gan y panel.



Ffigur 1



8.0 Ethnigrwydd a Rhyw

Mae'r tablau canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion o ran rhyw ac ethnigrwydd:

Rhyw	Nifer a nodwyd
Benyw	4

Gwryw	4

Ethnigrwydd	Hunan-asesiad	Asesiad Swyddog y
Gwyn Prydeinig	2	1
Gwyn – Cymreig	2	0
Gwyn – Gogledd Ewrop	0	1
Cymreig/Seisnig/Albanaidd/ Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	0	2
Heb nodi	4	4

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.

9.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel yr hoffent ganolbwyntio ar achosion yn ymwneud â Lladradau a Byrgleriaethau yn y cyfarfod nesaf.

10.0 Camau Gweithredu

OOCR -176	Rhoi adborth cadarnhaol i'r swyddog(ion) mewn perthynas ag Achos Ieuenctid 1.	Wedi'i gwblhau
OOCR -177	SCHTh i ymgysylltu â Chyfiawnder Ieuenctid i drafod yr ymgyrch i newid cyfeiriad a chyfleoedd lobïo posibl i ehangu prosesau a ddefnyddir yng Ngwent.	
OOCR - 178	Swyddog(ion) i dderbyn adborth mewn perthynas ag Achos Ieuenctid 7, a'r gofyniad i sicrhau ymgysylltiad y plentyn dan sylw.	